Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Pengwaith**

**Cartref Henoed Plas Pengwaith**
**Maes Padarn**
**Llanberis.**
**LL55 4TP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 10 Awst 2024

09/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Plas Pengwaith

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 31 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Mai 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yng nghartref Plas Pengwaith yn cael budd o ofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt ac o barhad yn eu gofal. Mae'r cartref yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru, ac mae'r mwyafrif o'r staff yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r bobl yn cael dewisiadau dyddiol mewn perthynas â'u gofal a'u gweithgareddau a chaiff hyn ei adlewyrchu yn eu cynlluniau gofal personol. Mae'r cartref yn cael ei ailaddurno. Mae'r décor yn olau ac yn lân. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y cartref, a bod y staff yn garedig, y bwyd yn dda, a'r amgylchedd yn gartrefol. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth i'w helpu yn eu rôl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y tîm rheoli'n weladwy ac yn gefnogol.

## Llesiant

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn y cartref; mae'r staff yn gyfeillgar, yn garedig ac mae'r bwyd yn dda. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael dewisiadau bob dydd mewn perthynas â'u gofal a'u gweithgareddau. Caiff hyn ei adlewyrchu yn eu cynlluniau gofal personol. Gwelsom fod y bobl yn cael sylw pan fo angen a bod cydberthynas dda rhwng y bobl a'r staff. Dywedodd un unigolyn, "*mae'n neis iawn yma, bwyd yn dda a staff ffeind yma".* Dywedodd unigolyn arall, *"dwi'n hapus yma".* Gwelsom gardiau diolch diweddar gan deuluoedd ynghylch gofal eu perthynas. Roedd y rhain yn canmol y staff gofal a'u gofal. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys, "*diolch am y gofal tyner a chyfeillgar"*, *"we are very grateful for the care".* Mae'r bobl yn cael dyddiau allan, yn coginio ac yn gwneud crefftau, a chaiff y pethau hyn eu rhannu â'r teuluoedd ar dudalen Facebook. Roedd unigolyn yn cael parti pen-blwydd gyda'i deulu ar ddiwrnod yr arolygiad ac roedd yn gwerthfawrogi hyn. Gall y staff gofal ddisgrifio'r broses ddiogelu leol i gadw'r bobl yn ddiogel. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd gwely ac y gallant eu personoli.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth priodol. Gwelsom fod y bobl yn gallu dylanwadu ar eu cynllun gofal. Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar eu hanghenion a'u hamcanion unigol. Caiff y cynlluniau gofal personol eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i anghenion yr unigolyn. Mae'r tîm rheoli yn asesu'r bobl cyn iddynt gael eu derbyn i'r cartref i sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod y trefniadau storio a rhoi meddyginiaeth yn dda. Gwnaeth y fferyllfa hefyd gynnal archwiliad diweddar ar ran yr awdurdodau lleol a chanfod bod y gweithdrefnau'n dda. Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym fod y fferyllwyr lleol yn eu cefnogi ac y gallant gael presgripsiynau meddyginiaeth ar gyfer y bobl mewn modd amserol. Mae gan y nyrsys ardal swyddfeydd yn y cartref a dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff y gallant gael cyngor ganddynt yn hawdd. Gwelsom o'r cynlluniau personol fod y bobl yn cael eu cefnogi i fynychu apwyntiadau iechyd a chaiff unrhyw gyfarwyddiadau dilynol eu cofnodi'n ofalus i sicrhau bod y bobl yn cael canlyniadau da. Mae'r prosesau rheoli heintiau yn dda, a gall y staff gael gafael ar Gyfarpar Diogelu Personol fel y bo angen. Mae gan y bobl Gynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP), fel bod ffordd iddynt gael help i adael yr adeilad os bydd argyfwng. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant diogelu i roi gwybod am ddigwyddiadau difrifol ac i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r uwch-aelodau o'r staff yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru ac awdurdodau perthnasol am ddigwyddiadau mewn ffordd briodol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn lân ac yn gartrefol. Gwelsom fod y bobl yn gallu personoli eu hystafelloedd er mwyn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol. Mae gan bob “tŷ” yn y cartref ystafelloedd, ystafell ymolchi, lolfa, a chegin. Gwelsom fod rhaglen ailaddurno ar waith a bod y lolfeydd sydd wedi cael eu haddurno yn edrych yn ffres ac yn gartrefol. Mae'r coridorau wedi cael eu hailaddurno ac maent yn lân ac nid oes unrhyw rwystrau ynddynt. Mae'r ardaloedd awyr agored yn daclus ac mae seddi ar gael i'r bobl eu defnyddio pan fydd y tywydd yn braf. Gall y bobl gael gafael ar gyfarpar priodol ar gyfer eu gofal. Caiff y cyfarpar ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu yn unol â gofynion y gwneuthurwr. Gwelsom fod asesiadau iechyd a diogelwch ar waith. Mae'r gwiriadau cynnal a chadw a'r gwiriadau tân yn gyfredol. Caiff prosesau gwagio'r adeilad mewn argyfwng neu dân eu personoli i bawb fel bod y staff gofal a'r gwasanaethau brys yn gwybod beth yw'r ffordd orau o helpu'r bobl. Mae'r ystafell feddyginiaeth yn ddiogel. Caiff gwybodaeth gyfrinachol ei chadw'n ddiogel mewn swyddfeydd dan glo. Mae'r gwiriadau cyfleustodau yn gyfredol a chafodd tystysgrifau eu cyflwyno ar gais.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu da yn y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn darparu adroddiadau ymweld ac adroddiad ar ansawdd y gofal yn unol â'r ddeddfwriaeth. Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd ato ac yn ymdrin â materion mewn ffordd ragweithiol. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwr yn weladwy, yn hawdd mynd ato ac yn gefnogol. Gall y staff gofal gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi eu harferion dyddiol. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn unol â'r hyn sydd wedi'i ddisgrifio yn nogfen Datganiad o Ddiben y cartref.

Mae ffeiliau personél y staff gofal yn dangos bod gwiriadau ar waith, a'u bod yn gyfredol, er mwyn sicrhau bod y staff yn briodol i weithio gydag oedolion agored i niwed. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith ac yn teimlo bod y bobl yn cael gofal da. Dywedodd y staff gofal fod y cartref yn brysur iawn yn ddiweddar. Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym fod llawer o'r staff wedi bod yn sâl, a gallem weld hyn drwy edrych ar y rotas hefyd. Cawsom wybod bod rhai swyddi'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd, ond ei bod yn anodd recriwtio'n lleol. Caiff staff asiantaeth eu defnyddio, ond dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff eu bod yn gofyn am yr un staff asiantaeth i weithio yn y cartref er mwyn sicrhau parhad gofal. Gwnaethom siarad ag aelod o staff gofal asiantaeth a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Dywedodd yr unigolyn ei fod yn mwynhau gweithio yn y cartref, a'i fod yn un o'r cartrefi gorau yn yr ardal. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant gorfodol ac arbenigol i sicrhau bod ganddynt arferion da. Mae'r uwch-aelodau o staff wrthi'n dal i fyny â sesiynau goruchwylio'r staff gofal yn dilyn y cyfnod diweddar o salwch. Caiff y staff gofal eu goruchwylio i sicrhau arferion gorau ac i roi cymorth iddynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/10/2024